

newidiwch i ynni rhatach...



Cofrestrwch heddiw.
Gyda'n gilydd gallwn arbed mwy.

0800 093 5902

www.cydcymru-egni.com

Rhoi pŵer i'r bobl

Efallai nad ydych wedi clywed am gydfargeinio i brynu ynni o'r blaen, ond mae'r syniad yn syml dros ben. Drwy ddod ynghyd fel un i brynu ein hynni, gallwn sicrhau bargaen well gyda darparwyr ynni, a chael mwy o arbedion a gaiff eu trosglwyddo i chi!

Mae pawb yn gwybod y gall newid cyflenwyr ynni arbed arian i ni. Fodd bynnag mae pobl ym mhob rhan o Brydain yn sicrhau mwy o fanteision drwy newid a phrynu eu hynni gyda'i gilydd, gan arbed rhwng £60 a £250 ar filiau ynni eu cartref bob blwyddyn!

Ar adeg pan fo costau ynni yn cynyddu, mae sicrhau ffyrdd o arbed arian yn bwysicach nag erioed.



Cyd Cymru – Wales Together

Mae Cyd Cymru yn gynllun cydfargeinio ynni sydd ar waith ledled Cymru. Pa le bynnag rydych yn byw yng Nghymru, drwy gofrestru â'r cynllun a newid eich cyflenwr ynni, gallech fod yn gweld y manteision. Po fwyaf o bobl sy'n ymuno â ni, y mwyaf y disgownt y gallwn gydfargeinio amdano.

Mae Cyd Cymru yn broiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru, ac mae wedi'i ddatblygu gyda phartneriaid ledled Cymru i'ch helpu chi i gael bargaen well ar gostau eich ynni.

Sut mae'r broses yn gweithio?

Does dim rhaid i chi newid cyflenwr/cyflenwyr ynni a chi fydd â'r gair olaf ar ba un a ydych am newid ai peidio.

1. **Cofrestru:** Y cam cyntaf yw cofrestru diddordeb, gan roi cymaint o fanylion â phosibl am faint o ynni a ddefnyddir yn eich cartref. Mae modd gwneud hyn ar-lein neu dros y ffôn.
2. **Arwerthiant Ynni:** Yna cynhelir ocsiwn ynni lle dylai cwmnïau ynni roi eu pris gorau i'r bobl sydd wedi cofrestru â'r cynllun.
3. **Cynnig cyfradd newydd:** Bydd rhywun yn cysylltu â chi i gynnig pris arbennig i chi yn seiliedig ar y wybodaeth rydych chi wedi ei rhoi.
4. **Rydych yn dewis newid.** Os byddwch yn derbyn y cynnig, cewch gymorth i newid i'r tariff newydd rhatach.
5. **Bydd ein partner, energyhelpline, yn eich helpu i newid cyflenwr.**

Sut ydw i'n cofrestru?

Bydd o leiaf ddwy broses gydfargeinio rhwng nawr a mis Mawrth 2014. Dechreuodd y gyntaf ar 21 Hydref a bydd ar agor tan 1 Rhagfyr 2013.

Gallwch gofrestru eich manylion gyda ni drwy:

1. Ienwi'r ffurflen ar-lein ar ein gwefan www.cydcymru-egni.com
2. Ffonio ein canolfan gyswllt ar 0800 093 5902